Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD GWENER, 21AIN CHWEFROR, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**sionedmaijones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13 Chwefror, 2025)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan - Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Gary Pritchard - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Dave Hughes - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Nia Jeffreys - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Edgar Wyn Owen – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Gareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Alwyn Jones – Prif Weithredwr Dros Dro - Cyngor Wrecsam
Jonathan Cowley – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Alwen Williams - Prif Weithredwr Dros Dro y Cyd-Bwyllgor
Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 4 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2025 fel rhai cywir.

**5. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD A CHYMERADWYAETH PORTH** 12 - 19

Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC), Neal Cockerton (Prif Weithredwr, Cyngor Sir y Fflint), Alwyn Jones (Prif Weithredwr Dros Dro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Iain Taylor (Ymgynghorydd Arweiniol – Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam) i gyflwyno’r adroddiad.

**6. TROSGLWYDDO'R CYNLLUN TWF I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG** 20 - 22

Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro ac Iwan Evans, Swyddog Monitro i gyflwyno’r adroddiad.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**17/01/25**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion:** Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Geraint Owen (Cyngor Gwynedd) a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion Statudol**
Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) ac Iwan Evans (Swyddog Monitro).

**Swyddogion eraill yn bresennol**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Claire Incledon (Cyfreithiwr), Dave Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig), Jack Latkovic (Swyddog Democratiaeth Cydbwyllgor Corfforedig), Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol y CBC), Allan Pitt (Arup), Adam Graham (Trafnidiaeth Cymru) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Mark Pritchard yn Gadeirydd hyd Cyfarfod Blynyddol nesaf y Cyd-bwyllgor.**

   Diolchodd y Cadeirydd am gefnogaeth y Cyd-bwyllgor gan nodi y byddai yn gweithio'n ddiflino i wella Gogledd Cymru fel rhanbarth.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Charlie McCoubrey yn Is-gadeirydd hyd Cyfarfod Blynyddol nesaf y Cyd-bwyllgor.**

   Mynegwyd llongyfarchiadau ar ran y Cyd-bwyllgor i'r Is-gadeirydd. Diolchodd yr Is-gadeirydd am y gefnogaeth gan ategu y byddai'n gwneud popeth o fewn ei allu er mwyn sicrhau llwyddiant y Cyd-bwyllgor hwn.

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:
   - Cyng. Jason McLellan Cyngor Sir Ddinbych) gyda Cyng. Barry Mellor yn dirprwyo.
   - Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Geraint Owen yn dirprwyo.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi.

**5. MATERION BRYS**

Dim i’w nodi.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2024 fel rhai cywir.

**7. LLYWODRAETHU'R CBC - IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC ac Iwan Evans, Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD:**

**Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl arfaethedig yn atodiad 1 o’r adroddiad ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.**

**Cymeradwyo comisiynu gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd, Cyllid, TG, Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, Iechyd a Diogelwch, a Chyfieithu drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda Chyngor Gwynedd o fewn y cyllidebau a gymeradwywyd.**

**Cytuno i ddirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr Dros Dro y CBC, ac yn unol â’r adroddiad yma, ac mewn ymgynghoriad â’r Cadeirydd a’r Is-gadeirydd i gytuno a chwblhau Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) ar gyfer y gwasanaethau yn 2.2 uchod gyda Chyngor Gwynedd.**

**TRAFODAETH**

Darparwyd crynodeb o’r adroddiad oedd yn cynnig Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer Is-bwyllgor Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig, sydd i’w weld yn Atodiad 1 o’r adroddiad. Eglurwyd bod y Cylch Gorchwyl yn canolbwyntio'n benodol ar y Cynllun Twf a'i drosglwyddiad arfaethedig i'r CBC ar y 1af o Ebrill, 2025.

Amlinellwyd y Model Llywodraethu arfaethedig ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd fel sydd i’w weld yn Atodiad 2 o’r adroddiad. Nodwyd y bydd y Cylch Gorchwyl yn esblygu wrth i ddealltwriaeth a chytundeb ddod i’r amlwg ynglŷn â beth ydi’r diffiniad o les economaidd ar lefel rhanbarthol ac felly beth ydi cyfrifoldebau ehangach y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y maes yma. Nodwyd y bydd y ffocws cychwynnol ar y Cynllun Twf yn caniatáu i drosglwyddo’r Cynllun i mewn i Strwythur llywodraethu o fewn y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Ymhelaethwyd ar y penderfyniad a geisir gan egluro y bydd adroddiad pellach dan eitem 12 o’r Rhaglen ar y gyllideb ddrafft wrth gyfeirio at ran 2.2 o’r penderfyniad oedd yn sôn am y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Gwynedd. Tynnwyd sylw at ran 4.6 o’r adroddiad oedd yn rhoi mwy o fanylder ar yr adnoddau fyddai’n cael eu darparu i gyflawni’r CLG ac amlygwyd bwriad i gomisiynu’r trefniant hwn am gyfnod cychwynnol o 3 mlynedd.

I gloi cadarnhawyd y bydd gofynion y CLG yn cael eu hariannu o fewn y cyllidebau Gwasanaethau Cefnogol y gobeithir bydd yn cael eu cymeradwyo heddiw dan yr eitem Cyllideb.

Diolchodd y Cadeirydd i Brif Weithredwr dros dro'r CBC am yr adroddiad. Awgrymodd ychwanegu'r cymal “ac mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd” i drydydd paragraff y penderfyniad a geisir. Mynegwyd cefnogaeth i'r addasiad hwn gan fynegi barn ei fod yn addasiad synhwyrol.

Gwnaethpwyd sylw ei bod yn dda gweld y trefniadau yn cael eu ffurfioli a'r adnoddau priodol mewn lle a bod y Cyd-bwyllgor yn ymwybodol o be sy'n ddisgwyliedig. Cydnabuwyd y gwaith sydd wedi ei wneud gan Swyddogion Cyngor Gwynedd a diolchwyd iddynt am y gwaith yma.

## 8. IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD**

**1.1 Cymeradwyo penodi'r chwe Chynghorydd enwebedig isod o bob Cyngor cyfansoddol fel Aelodau cyfetholedig (sydd â phleidlais) o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

| Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | | |
|---|---|---|
| Cyngor | Aelodaeth Etholedig | Aelodaeth Lleyg |
| Conwy | Y Cyng. Gareth Jones<br>Y Cyng. Stephen Price (eilydd) | (cefnogwyd Nigel Rudd) |
| Sir Ddinbych | Y Cyng. Carol Holliday<br>Y Cyng. Bobby Feeley (eilydd) | Nigel Rudd |
| Sir y Fflint | Y Cyng. Andrew Parkhurst<br>Y Cyng. Ted Palmer (eilydd) | (dim penodiad) |
| Wrecsam | Y Cyng. Paul Rogers<br>Y Cyng. Trevor Bates (eilydd) | (cefnogwyd Carys Edwards) |
| Gwynedd | Y Cyng. Ioan Thomas<br>Y Cyng. Richard Glyn Roberts (eilydd) | Carys Edwards |
| Ynys Môn | Y Cyng. Geraint Bebb<br>Y Cyng. Keith Roberts (eilydd) | Sharon Warnes |

**1.2 Cymeradwyo penodi tri aelod lleyg i gael eu cyfethol (a chanddynt bleidlais) i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan atgoffa ei bod yn ofyn statudol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cytunwyd yn flaenorol i geisio Is-bwyllgor fydd yn cynnwys 3 aelod lleyg a chwe aelod etholedig. Adroddwyd ar y gwaith a ddilynodd i benodi'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a derbyniwyd enwebiadau o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio'r Cynghorau.

Eglurwyd yn sgil y gofynion cworwm llym sydd o amgylch materion y Cyd-bwyllgor Corfforedig fod y cynnig hefyd yn cynnwys ethol dirprwyon. Tynnwyd sylw at baragraff 3.8

o'r adroddiad sydd yn rhestru'r enwau sydd wedi eu henwebu gan y Cynghorau ac o blith aelodau lleyg Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio. Nodwyd ei bod yn braf adrodd bod elfen o gydweithio wedi bod yn sgil yr enwebiadau wrth i Gynghorau gefnogi aelodau lleyg ar y cyd.

Diolchwyd am yr adroddiad gan ategu fod hyn yn ofynnol er mwyn cydymffurfio a Rheoliadau Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 (Rheoliadau Sefydlu) a bod cyfrifoldeb ar y Cyd-bwyllgor i benodi. Cefnogwyd yr adroddiad.

**9. DIWEDDARIAD CYNNYDD AR Y CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC a David Hole, Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn y cynnydd hyd yma a'r trefniadau symud.**

**Cefnogi'r amserlenni dangosol ar gyfer datblygu'r Cytundeb Cyflawni ac awdurdodi ei baratoi yn unol â hynny.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn ofyniad yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Corfforedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a'r heriau wrth baratoi Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol. Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor dderbyn y cynnydd hwn a chefnogi'r amserlenni dangosol ar gyfer datblygu'r Cytundeb Cyflawni ac awdurdodi ei baratoi.

Adroddwyd ar y tasgau y bydd y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol yn eu hymgymryd ac amlinellwyd yr amserlen ddangosol ar gyfer y gwaith yma, fel sydd i'w weld yn rhan 5.2 o'r adroddiad.

Tynnwyd sylw at ran 4.5 o'r adroddiad oedd yn amlygu'r adnodd fydd ei angen i arwain ar y gwaith. Cadarnhawyd bod anodd wedi ei adnabod a bod Andy Roberts wedi cychwyn rhan amser yn ei swydd fel Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol y CBC. Dymunwyd yn dda i Andy gan nodi y bydd yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos yn y rôl yma. Nodwyd bod y darn hwn o waith yn ddarn pwysig ar gyfer y rhanbarth ac y bydd Andy yn arwain ar y gwaith dan arweinyddiaeth yr Is-bwyllgor Cynllunio ar ran y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Diolchwyd am yr adroddiad ac estynnwyd croeso i Andy gan y Cadeirydd ar ran y Cyd-bwyllgor gan gydnabod pwysigrwydd y gwaith Cynllun Datblygu Strategol.

Holwyd os ydi Prif Weithredwr dros dro'r CBC yn ymwybodol o unrhyw newid i'r amserlenni a gofynnwyd am ddiweddariad yn gyflym pe bai unrhyw newidiadau. Cadarnhaodd Prif Weithredwr dros dro'r CBC y byddai'r Cyd-bwyllgor yn cael eu diweddaru pe bai unrhyw newidiadau ac ategodd y bwriad o edrych ar fanylder yr amserlen a bwrw mlaen gyda'r gwaith. Ychwanegwyd pe bai unrhyw newid i'r amserlenni byddai'r rhesymau dros hynny yn cael eu hegluro'n llawn i'r Cyd-bwyllgor.

**10. CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU – ACHOS DROS NEWID A CHYNLLUN YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC a David Hole, Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwyo'r Achos dros Newid gan gynnwys y Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid.**

**Cefnogi dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu bod y Cynlluniau a gyflwynwyd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr, 2024. Eglurwyd bod y Cynllun Achos dros Newid a'r Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn gam gweithdrefnol beirniadol wrth ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a chreu sylfaen angenrheidiol i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar 20 Ionawr. Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r ddau Gynllun a chefnogi dechrau ymgynghoriad cyhoeddus.

Rhannwyd gwybodaeth am linell amser bras oedd yn crynhoi'r prif gerrig milltir ar gyfer cyrraedd cyhoeddi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Eglurwyd mai'r bwriad yw i redeg ymgynghoriad o 20 Ionawr hyd ar 14 Ebrill sydd yn gyfnod o 12 wythnos. Nodwyd bod copi o'r ddogfen bolisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ei chynnwys yn Atodiad 3 o'r adroddiad a nodwyd bod yr holl ddogfennau cefnogol yn barod i'w lansio fel rhan o'r ymgynghoriad pe bai'r Cyd-bwyllgor yn gefnogol heddiw.

Mynegwyd balchder yn y gwaith sydd wedi cael ei gwblhau gan ARUP a'r gwaith pwysig sydd wedi cael ei wneud gan Trafnidiaeth Cymru fel rhan o'r broses o gasglu'r wybodaeth i gyd yn barod i fynd allan i ymgynghoriad. Amlygwyd mai Gogledd Cymru fydd y rhanbarth cyntaf i fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a bod hyn yn destun balchder sy'n cydnabod y gwaith aeth yn ei flaen ers mis Hydref 2024 i gael yr holl ddogfennaeth yn barod.

Diolchwyd i Brif Weithredwr dros dro'r CBC a'r tîm am eu gwaith i sicrhau bod popeth yn barod ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus gan gydnabod pwysigrwydd y gwaith.

Mynegwyd diolch pellach i Brif Weithredwr dros dro'r CBC am fynychu sesiwn briffio i aelodau etholedig Ynys Môn yn ystod yr wythnos oedd yn fuddiol iawn. Cadarnhawyd bod yr aelodau etholedig wedi bod yn annog eu partneriaid trydydd sector i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Gofynnwyd am sicrwydd y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei llawn le yn yr ymgynghoriad a bod ystyriaeth hefyd i ymgysylltu wyneb yn wyneb yn ogystal ag ymgysylltu digidol. Ychwanegwyd ei bod yn bwysig bod cyfleoedd i bobl fedru ymateb ac ymgysylltu trwy'r iaith Gymraeg. Cadarnhaodd Prif Weithredwr dros dro'r CBC bod yr holl ddogfennaeth yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf o fewn yr ymgynghoriad. Adroddwyd bod ystafell rithiol wedi ei chreu ar y cyd efo ARUP a bod y byrddau rhithiol hyn i gyd yn ymddangos efo'r Gymraeg yn gyntaf. Ychwanegwyd bod llinell ffôn wedi ei sefydlu fydd yn agored i'r cyhoedd ffonio fydd hefyd yn cynnig darpariaeth Gymraeg i unrhyw un sydd eisiau trafodaeth neu roi adborth yn Gymraeg. Nodwyd mai'r unig ddogfennaeth sydd heb eu cyfieithu i'r Gymraeg yn llawn yw dogfennaeth hynod dechnegol sydd wrth gefn i'r ymgynghoriad.

Mynegwyd o ran ymgysylltu wyneb yn wyneb bod y Cyd-bwyllgor yn barod iawn i gefnogi hyn o fewn unrhyw awdurdod. Adroddwyd bod ymgysylltu gyda rhai awdurdodau sydd eisiau cynnal sesiynau wyneb yn wyneb yn lleol eisoes wedi cychwyn. Ategwyd bod hynny yn benderfyniad i'r awdurdodau yn unigol os ydynt eisiau hwyluso sesiynau wyneb yn wyneb a

bod y CBC yn barod iawn o fewn rheswm ac o fewn eu gallu efo'r adnoddau sydd ganddynt i ddod i gefnogi'r sesiynau hynny.

Holwyd am barcio ar gyfer Dyffryn Ogwen ac os oes rhywbeth wedi ei gytuno eisoes yn yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol. Eglurwyd bod popeth sydd ger bron y Cyd Bwyllgor Corfforaethol heddiw eisoes wedi ei gymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth ym mis Rhagfyr ond ni chredwyd bod unrhyw beth penodol ar barcio yn Nyffryn Ogwen wedi ei gynnwys. Nodwyd petai materion penodol lleol bod modd i'r rheini fwydo mewn i'r ymgynghoriad ac awgrymwyd darparu hyn fel rhan o'r adborth drwy gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Esboniwyd bod y broses ymgynghori yn un syml a chlir gyda 5-6 o gwestiynau sy'n ei gwneud yn hawdd i unrhyw un allu rhoi adborth fydd wedyn yn cael ei ddadansoddi gan y tîm yn ARUP.

**11. RHAGOLWG O WARIANT 2024/25 CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi A. Morgan (Pennaeth Cyllid - Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol).

**PENDERFYNIAD**

**Nodi a derbyn rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2024/25 fel y cyflwynir yn Atodiad 1.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad adolygiad ariannol Rhagfyr 2024 gan dynnu sylw'r aelodau at y tabl yn atodiad 1 o'r adroddiad. Eglurwyd bod y gyllideb ar yr ochr chwith ac yna amcan o'r sefyllfa hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol ar yr ochr dde, gyda'r golofn olaf yn dangos y gorwariant neu'r tanwariant fesul pennawd.

Amlygwyd, yn seiliedig ar yr wybodaeth diweddaraf, rhagwelir tanwariant net o £270,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a hynny wedi cynyddu o'r £200,000 a ragwelwyd yn Adolygiad Awst. Rhagwelir tanwariant o £311,000 ar y pennawd Gweithwyr a £5,000 o danwariant ar y pennawd Teithio. Nodwyd bod y pennawd ymgynghorwyr allanol yn dangos gorwariant o £53,000, ond bod £80,000 o'r gwariant ar y pennawd yma yn ymwneud â chostau ymgynghori sy'n cael ei ariannu o Grant Trafnidiaeth, a dangosir yr incwm fel gwarged o dan yr incwm grant is lawr yn y tabl.

Tynnwyd sylw at y gorwariant o £216,700 ar y costau sefydlu, sef cynnydd o'r £136,000 o orwariant a ragwelwyd yn yr adolygiad Awst a hynny oherwydd yr oedi wrth drosglwyddo swyddogaethau'r Cynllun Twf i'r Cydbwyllgor Corfforedig gyda'r dyddiad trosglwyddo tebygol bellach ym mis Ebrill.

Diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol am yr adroddiad a'r gwaith gan fynegi bodlonrwydd am yr hyn sydd wedi ei nodi.

**12. CYLLIDEB CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD AC ARDOLL AR AWDURDODAU CYFANSODDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi A. Morgan (Pennaeth Cyllid - Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol).

**PENDERFYNIAD**

**1.1 Cymeradwyo Cyllideb 2025/26 Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd fel y'i cyflwynir yn yr atodiad i'r adroddiad. Cymeradwyo'r gyllideb fel y nodir isod:-**

| Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Cyllideb |
|---|---|---|---|
| £ | £ | £ | £ |
| 375,040 | 184,180 | 343,260 | 902,480 |

**1.2 Cymeradwyo'r ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol fel y nodir isod:-**

| | Cynllunio Strategol | Swyddogaethau eraill | Cyfanswm Ardoll |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (59,630) | (87,190) | (146,820) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (52,660) | (74,050) | (126,710) |
| Cyngor Sir y Fflint | (84,450) | (118,820) | (203,270) |
| Cyngor Gwynedd | (53,860) | (90,830) | (144,690) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (37,540) | (52,800) | (90,340) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (73,770) | (103,750) | (177,520) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | (13,130) | | (13,130) |
| **Cyfanswm Ardoll** | **(375,040)** | **(527,440)** | **(902,480)** |

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd cyllideb y Cydbwyllgor Corfforedig ar gyfer 2025/26 a rhedwyd trwy'r prif ychwanegiadau. Nodwyd bod argymhelliad diweddar y Llywodraethau i gael Cyfarwyddwr Portffolio Cynllun Twf llawn amser pwrpasol wedi cael effaith ar y strwythur staffio. Yn flaenorol, rhannwyd swydd Prif Weithredwr y Cydbwyllgor gyda'r Cynllun Twf, ond yn dilyn eu hargymhelliad, mae cyllideb y Cydbwyllgor bellach wedi ei addasu i gynnwys swydd Prif Weithredwr llawn amser yn ogystal â Chynorthwyydd Personol llawn amser.

Adroddwyd bod pedair swydd ychwanegol mewn Polisi, Caffael, Gweithrediadau a Gweinyddu wedi'u hychwanegu at y strwythur staffio a rheini i gael eu hariannu o'r gronfa wrth gefn am gyfnod o ddwy flynedd gyda thrafodaethau pellach i'w cynnal yn y dyfodol i benderfynu os oes angen eu gwneud yn barhaol a'u hychwanegu at yr ardoll.

Eglurwyd bod y gyllideb gwasanaethau cefnogol wedi cynyddu, a hynny i adlewyrchu'r adnoddau sydd eu hangen wrth symud ymlaen ac mae'n cynnwys cefnogaeth Cyllid (gan gynnwys Swyddog Adran 151), Cyfreithiol (gan gynnwys y Swyddog Monitro), Cefnogaeth

Democratiaeth, Gwasanaethau Corfforaethol (Cyfieithu, Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, Iechyd a Diogelwch) a gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth.

Nodwyd bod cyllideb o £180,000 ar gyfer rhaglen y Parth Buddsoddi gyda'r gobaith y bydd popeth mewn lle i ddechrau ym mis Ebrill 2025. Ychwanegwyd y bydd cyfraniad o bron i £565,000 yn dod o’r gronfa wrth gefn a fydd wedyn yn gadael tua hanner miliwn o falans yn y gronfa.

Esboniwyd mai cyfanswm y gyllideb net a ddefnyddir i gyfrifo'r ardoll ar gyfer 2025/26 yw £902,480 ac sy'n gynnydd o £137,660 o 2024/25, ac mae’r cynnydd yma’n bennaf oherwydd effaith argymhelliad diweddar y Llywodraethau i gael Cyfarwyddwr Portffolio llawn amser pwrpasol ar gyfer y Cynllun Twf.

Diolchwyd am yr adroddiad. Nid oedd unrhyw sylwadau pellach.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 14:20.

___________________________________

(Cadeirydd)

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

21 Chwefror, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam<br>– Diweddariad ar Gynnydd a Chymeradwyaeth Porth |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro, CBC y Gogledd<br>Neal Cockerton, Prif Weithredwr, Cyngor Sir y Fflint<br>Alwyn Jones, Prif Weithredwr Dros Dro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Iain Taylor, Ymgynghorydd Arweiniol - Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i sicrhau Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r adroddiad yn dangos dyraniadau arfaethedig y cyllid hyblyg o £160m i themâu ac ymyraethau'r Parth Buddsoddi.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r dyraniadau ariannol a gynigir yn ***Atodiad 1***.

2.2. Dirprwyo Prif Weithredwr Dros Dro y CBC a’r Swyddog S151 gyda Chynghorau Wrecsam a Sir y Fflint i gytuno ar unrhyw fan addasiadau i'r dyraniadau sy'n codi o baratoi cyflwyniad Porth 4. Er mwyn osgoi amheuaeth, "man addasiadau" yw'r rheini lle nad oes newid o fwy na 10% i gyllid unrhyw bennawd a gytunwyd arno, ac nid ydynt yn cynnwys symudiad rhwng cyllid cyfalaf a refeniw.

2.3. Aelodau i nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a gofyn bod y Pyrth sy'n weddill (4 a 5) yn cael eu cyflwyno am gymeradwyaeth, ynghyd â phenderfyniad terfynol ar gynnig y Parth Buddsoddi mewn cyfarfod yn y dyfodol, unwaith mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) a'r Pyrth wedi'u cytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Cefnogi'r gwaith o baratoi Porth 4 (Ymyraethau) a Phorth 5 (Cyflawni).

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Porth 1 (Gweledigaeth) a Phorth 2 (Sector a Daearyddiaeth) wedi'u cytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn amodol ar ddatrys y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau, sydd wedi codi o adolygiad ac adborth. Mae'r Gwir Anrhydeddus Rachel Reeves AS, Canghellor y Trysorlys, wedi datgan y bwriad i fwrw ymlaen gyda Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam mewn araith twf ar 29 Ionawr, 2025. Mae'r cyhoeddiad wedi cael sylw da yn y cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol a'i gefnogi gan randdeiliaid sector breifat allweddol Airbus, JCB a First Investments.

4.2. Roedd llywodraethau yn croesawu paratoi a chyflwyno dogfen ddrafft Porth 3 (Llywodraethu) oedd wedi'i chyflwyno i swyddogion y ddwy Lywodraeth ar 30 Ionawr, 2025. Roedd y cynnwys yn seiliedig ar y modelau Llywodraethu a gytunwyd gan y CBC yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd, 2024. Mae disgwyl cael penderfyniadau ar Borth 3 gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2025.

4.3. Cafodd gwybodaeth oedd wedi'i chynnwys ym Mhorth 3 a'i drafftio i gefnogi Porth 4 ei chynnwys ym mhapurau Bwrdd Gweithredol a Chabinet y Cyngor, a'u cymeradwyo gan y ddau Gyngor sy'n bartneriaid ym mis Rhagfyr 2024.

4.4. Mae Porth 4 (Ymyraethau) yn ymwneud â dangos bod y Parth Buddsoddi yn canolbwyntio ar gyflawni buddsoddiadau effaith uchel a sicrhau lefelau uchel o gyd-fuddsoddiad cyllid preifat i'r deilliannau a gytunwyd. Dylai'r ymyraethau ddangos sut mae'r Parth Buddsoddi yn helpu i ymdrin â'r rhwystrau twf a materion allweddol a adnabuwyd ym Mhorth 2. Mae hefyd yn ceisio deall sut allai datblygiad y Safleoedd Treth, gyda'r buddion meddiannwr sydd ar gael, greu buddsoddiad newydd sylweddol mewn galluedd gweithgynhyrchu.

4.5. Mae Porth 4 hefyd yn ceisio egluro rôl yr ymyraethau Sgiliau. Er mwyn cefnogi hyn, y bwriad yw comisiynu Cynllun Sgiliau, i'w adolygu gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn eu cyfarfod ar 13 Mawrth, 2025. Bydd y Cynllun Sgiliau yn darparu un pwynt cyfeirio ar gyfer prosiectau sy'n symud ymlaen o fewn yr Ymyraethau a osodwyd ar gyfer y buddsoddiad sgiliau.

4.6. Ynghyd â'r gwerthusiad o gyllid grant hyblyg o £160m, mae Porth 4 hefyd yn ystyried y defnydd o gronfeydd buddsoddi cyfraddau cadwedig a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r sefyllfa yn lefel uchel ar hyn o bryd gyda manylion yn cael eu ystyried ymhellach gyda chynlluniau buddsoddi unigol a gymeradwywyd gan y Cynghorau eu hunain mewn ymgynghoriad â'i gilydd a CBC y Gogledd. Darparwyd y model cychwynnol ar gyfer y cyfraddau cadwedig yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r CBC ar 22 Tachwedd, 2024 a bydd yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer y dull mireinio a gyflwynwyd ym Mhorth 4.

4.7. Mae'r dyraniad bwriedig o gyllid hyblyg o £160m yn cael ei osod allan yn ***Atodiad 1***. Mae'r dyraniadau wedi'u paratoi ar y cyd gyda phartneriaid dros gyfnod o 7 mis. Sefydlodd Porth 2 yr achos am fuddsoddiad mewn rhaglenni sgiliau gweithgynhyrchu, gwell trafnidiaeth, buddsoddiadau lefel safle, ynghyd â chefnogaeth busnes, arloesedd a chefnogaeth ymchwil a datblygu. Roedd yr ymarfer 'Galwad am Brosiectau' yn Haf 2024 yn fuddiol i gadarnhau'r galw a chyfleoedd am fuddsoddi.

4.8. Drwy gyfres o weithdai aml-randdeiliad a sesiynau datblygu rhaglen, mae'r rhaglen eang o ddyraniadau yn erbyn ymyraethau 'ar raglen' wedi'i mireinio a'i phrofi. Mae lled-gytundeb wedi bod drwyddi draw y dylai'r Parth Buddsoddi ymdrin â chyfyngiadau ar dwf sy'n gysylltiedig â diffyg cysylltedd trafnidiaeth cyhoeddus, heriau gyda datblygu safleoedd, gweithlu heb y sgiliau cywir a mesurau sy'n hybu arloesedd, Ymchwil a Datblygu a thwf busnes. Mae rhai ymyraethau angen lefel o fuddsoddi i gyflawni'r effaith mesuradwy (e.e. trawsffurfio bysiau) tra bo' eraill yn fwy hyblyg ac yn cynnig effaith ar sail llinol. Mae arfarniad y dyraniadau wedi edrych ar gyflawni'r effaith fwyaf ar gyfer trafnidiaeth, sgiliau ac arloesedd tra'n cadw cronfeydd yn ddigonol i ddatgloi'r safleoedd allweddol a chefnogi twf busnes ac ymchwil a datblygu ar gyfer busnesau sydd wedi'u lleoli ar draws Sir y Fflint a Wrecsam. Y bwriad yw mabwysiadu'r ymyraethau 'ar raglen' a osodwyd yn y Ddogfen Dechnegol Parth Buddsoddi cyhoeddedig[1] ac edrych ymhellach ar sgôp y grantiau ar gyfer busnesau sy'n canolbwyntio ar weithgynhyrchu twf.

---

1 *https://www.gov.uk/government/publications/investment-zones-in-wales-technical-document/investment-zones-in-wales-technical-document*

4.9. Ymgynghorwyd gyda Chynghorau Wrecsam a Sir y Fflint ar y dyraniadau yn ***Atodiad 1*** a byddwn yn cyfeirio atynt mewn adroddiadau penderfyniad allweddol yn y dyfodol i'w hystyried ym mis Mawrth 2025. Fel rhan o arfarniad y Parth Buddsoddi, bydd y ddwy Lywodraeth yn cynnal arolwg o'r dyraniadau a'r allbynnau cysylltiedig ac mae posib iddynt ofyn i ni fireinio'r dull ymhellach a gwneud newidiadau. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu casglu a'u adrodd yn ôl am gymeradwyaeth mewn cyfarfod o'r CBC yn y dyfodol.

4.10. Unwaith y cytunir arno, bydd y dyraniadau ymyrraeth yn cefnogi'r Cynllun Cyflawni (fydd yn cael ei baratoi mewn ymgynghoriad â Chynghorau Wrecsam a Sir y Fflint ac yn gofyn am gymeradwyaeth y CBC) ar gyfer y Parth Buddsoddi fydd yn gosod allan cynigion ar sut fydd prosiectau yn cael eu hadnabod, eu cefnogi a'u cyflawni. Rhagwelir ystod o ddulliau cyflawni ar gyfer y Parth Buddsoddi, gan gynnwys: comisiynu, partneriaeth a galwadau agored yn dibynnu ar y thema a math y prosiect. Bydd angen i bob prosiect sy'n cael ei gyflawni gan drydydd parti gael achos busnes, yn gymesur i'w gofyn ac yn destun cymeradwyaeth bellach a phroses sicrhau. Bydd prosiectau trafnidiaeth a sgiliau, er enghraifft, yn dilyn trefniadau comisiynu, partneriaeth a chaffael sefydledig.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae goblygiadau ariannol yr adroddiad hwn yn sylweddol. Bwriad cynnwys Tabl 1 yn yr atodiad yw ffurfio sail i Borth 4 fydd yn pennu sail cymeradwyaeth y Llywodraeth o ffurf tebygol y Parth Buddsoddi a'r allbynnau disgwyliedig. Mae hefyd yn nodi'r trefniadau cyflawni a osodwyd ym Mhorth 5 fydd yn fwy amlwg yn ystod y blynyddoedd cynnar na’r blynyddoedd diweddarach. Mae modd newid y dyraniadau hyn dros amser gyda phroses rheoli newid ffurfiol i'w chytuno arni. Bydd hyn yn cael ei osod allan yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoUs) a gyfeiriwyd ato isod.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfrifoldeb allweddol fel y Corff Atebol ar gyfer y cynnig Parth Buddsoddi. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud yn y cyd-destun hwnnw a bydd yn galluogi cyflwyno'r dyraniadau arfaethedig i'r Llywodraethau i'w hystyried. Fel rhan o fynd â'r prosiect hwn ymlaen a sefydlu’r modelau llywodraethu y cytunwyd arnynt. Dylai aelodau fod yn ymwybodol mai'r bwriad yw cytuno ar ddau Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, fel a ganlyn:

- **Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth y Parth Buddsoddi**, rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a CBC y Gogledd, a
- **Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth Lleol y Parth Buddsoddi**, rhwng CBC y Gogledd, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd y cytundeb cyffredinol hwn rhwng y tri phartner yn ffurfioli'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a chyflawni'r Parth Buddsoddi, yr egwyddorion allweddol a'r dyraniadau ariannol sylfaenol.

6.2. Bydd manylion y trefniadau hyn yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod o'r CBC yn y dyfodol, ac mae'n debygol y bydd hyn yn digwydd ym mis Mawrth 2025.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Dyraniadau Ariannol Arfaethedig ar gyfer Cyllid Hyblyg y Parth Buddsoddi |

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Wrth ddatblygu cynnig y Parth Buddsoddi, bydd gan y CBC rôl ganolog fel y Corff Atebol. Bydd hyn yn cynnwys cymryd cyfrifoldeb am gymeradwyo elfennau allweddol y prosiect. Fel pob corff cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau arwyddocaol, bydd angen digon o wybodaeth i sicrhau bod y penderfyniad yn cael ei wneud yn briodol ac ar sail cyfiawnhad a thystiolaeth ddangosadwy. Fodd bynnag, mae'r dull manwl a chydweithredol a ddefnyddiwyd i ddod â'r materion hyn ymlaen yn golygu dylai'r CBC fod yn hyderus y bydd y penderfyniad a geisir yn seiliedig ar broses gydweithredol a thrylwyr."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwyf wedi derbyn sicrwydd bod y ffigyrau sy'n cael eu cynnwys yn yr Atodiad yn ganlyniad y broses ailadroddol i adnabod meysydd addas o wariant. Mae canllawiau'r Llywodraeth yn nodi'n amlwg y bydd angen i'r CBC ei gwneud yn glir faint o arian cyhoeddus sydd yn cael ei wario a'r allbynnau a deilliannau cysylltiedig y mae disgwyl iddynt eu cyflawni. Bydd y manylion hyn yn ffurfio sail i fonitro cynnydd a dal y CBC yn atebol ar gyfer cyflawni.

Felly, mae'r adroddiad hwn yn un hanfodol ar gyfer y CBC, ynghyd â'r ddau Gyngor. Wrth i waith datblygu'r Parthau Buddsoddi fynd yn ei flaen, bydd y gwasanaeth ariannol yn parhau i gefnogi'r CBC a'i swyddogion fel sy'n ofynnol."

Mae'r dyraniad bwriedig o gyllid hyblyg o £160m yn cael ei osod allan yn Nhabl 1 isod:

**Tabl 1 Dyraniadau Ariannol Arfaethedig ar gyfer Cyllid Hyblyg y Parth Buddsoddi**

| Thema Gwario Hyblyg | Ymyrraeth | Crynodeb | Dyraniad Refeniw £'000 | Dyraniad Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Uned Gynllunio a Rhaglen | Rheoli Rhaglen | Cyflwyno'r Parth Buddsoddi | 6,400 | |
| | Uned Gynllunio | Uned Gynllunio'r Parth Buddsoddi | 1,000 | |
| | Cefnogaeth Refeniw Achos Dichonoldeb a Busnes | Cefnogi cynnig ansawdd a gwaith cyn-datblygu | 1,500 | |
| Sgiliau | Defnyddio cyllid y Parth Buddsoddi i ategu gwaith a ariennir gan y LSIF, ac ategu'r defnydd o ffrydiau ariannu eraill i gyflawni blaenoriaethau LSIP | Ymgysylltu STEM Cyn-16 gydag ysgolion a sefydliadau trydydd sector | 2,258 | |
| | | Rhaglen Interniaeth | 3,000 | |
| | | Academi Sgiliau | 524 | |
| | | Buddsoddi cyfalaf yn safleoedd Glannau Dyfrdwy a Bersham Coleg Cambria am gyfleusterau Gwell Prentisiaethau a darpariaeth cyswllt ysgol (VCSEs) - isadeiledd, datblygiad a moderneiddio ac ail-leoli darpariaeth prentisiaethau Airbus i MRC arfaethedig) | | 1,200 |
| | | Dyraniad Cyfalaf i gyflawni sgiliau | | 500 |
| | | Dyraniad Cyfalaf i gyflawni sgiliau (cyn-16) | | 500 |
| | Cyllid i gefnogi sgiliau lleol drwy hyfforddiant a gaiff ei gyd-gynllunio gyda chyflogwyr, er enghraifft, Bŵtcamps Sgiliau ar gyfer sectorau penodol | Gweithgynhyrchu Uwch, Diwydiant 4.0 a Bŵtcamps Sgiliau Digidol, gyda chynnwys sy'n berthnasol i'r sector wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r diwydiant | 6,500 | |
| | | Cyd-greu datblygiad newydd, sydd wedi'i gyd-greu o gynigion cyfredol i gefnogi gofynion sgiliau sector-benodol | 2,912 | |
| | Cyllid i gefnogi sgiliau a rhwydweithiau entrepreneuraidd | Rhaglen hyfforddi sgiliau entrepreneuraidd wedi'i datblygu ar gyfer anghenion rhanbarthol/sector-benodol | 1,200 | |
| | Bydd Parthau Buddsoddi yn gallu cynnig cymhellion prentisiaeth lleol ar gyfer cyflogwyr sy'n gysylltiedig â | Cynllun cymhelliant prentisiaid, yn cefnogi recriwtio a chadw Prentisiaethau Digidol / | 2,376 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ffocws sectoraidd y Parth Buddsoddi, er mwyn ysgogi'r angen am brentisiaethau a dargedwyd i'r sgiliau penodol ac anghenion marchnad llafur o'u Parthau Buddsoddi | Gweithgynhyrchu Uwch, Prentisiaethau Peirianneg Uwch (L4) a Phrentisiaethau Gradd (L5/L6) | | |
| | | Prentisiaethau Gradd<br>Cyd-greu rhaglen MSc Rheoli Peirianneg a chymhellion i gefnogi ac ysgogi angen am raglen Meistr | 1370 | |
| | | Rhaglenni sy'n canolbwyntio ar Mres a PhDs (cysylltiedig â chefnogaeth busnes) | 740 | |
| | Cyllid ar gyfer hybiau hyfforddiant newydd a gwelliannau i hybiau hyfforddiant presennol, cynigion cefnogi busnes, 'deorwyr' a 'chyflymwyr' ar gyfer menter lleol sy'n medru cefnogi entrepreneuriaid ac egin-fusnesau drwy gamau cynnar y datblygiad a thwf drwy gynnig cyfuniad o wasanaethau, gan gynnwys rheoli cyfrifon, cyngor, adnoddau, hyfforddiant a mynediad at ofod gwaith. | e.e. KTP, Talebau, Prosiectau Mini-Full 130/140 o dalebau y flwyddyn | 6,679 | |
| Cefnogi Busnes | Cefnogi neu ymestyn y rhaglen Made Smarter Adoption, gan ddarparu cyngor arbenigol wedi'i deilwra, cefnogaeth ddwys, grantiau cyfatebol a hyfforddiant arweinyddiaeth i alluogi gweithgynhyrchwyr SME fabwysiadu datrysiadau technoleg digidol diwydiannol. Teilwra cefnogaeth sy'n benodol at sector i helpu pob is-sector gweithgynhyrchu | Grantiau ar gyfer gweithgynhyrchu twf | | 9,500 |
| | Cyllid i ddatblygu system concierge er mwyn helpu busnesau sy'n ymwneud â sector i weithio drwy'r heriau o gael mynediad at gyllid a ffurfiau eraill o gefnogaeth | Cydlynu trefniadau cefnogi busnes cyfredol a chefnogaeth micro-grant | 1,000 | |
| | Cyllid refeniw ychwanegol wedi'i ychwanegu i'r model cyllido 'Bus Service Improvement Programme Plus' (BSIP+) o fis Mehefin 2024 - byddai hynny'n rhoi cyllid i drefniadau teithio cysylltiedig (LTAs) yn seiliedig ar sgorio cysylltedd fel bod modd iddynt | Rhaglen trawsnewid bysiau, wedi'i chefnogi fel refeniw | 22,500 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gynnal gweithgareddau fydd yn hybu twf economaidd | | | |
| Isadeiledd | Cyllid ar gyfer datblygu a chefnogi isadeiledd arloesi priodol ar y lefel lleol | e.e. Prosiect EEOC - Cefnogaeth Academaidd | 1,850 | |
| | Cyllid ar gyfer datblygu a chefnogi isadeiledd arloesi priodol ar y lefel lleol | e.e. Allbwn EEOC Ymchwil a Datblygu | 1,000 | |
| | Cyllid ar gyfer mynediad i briffyrdd newydd, neu welliannau i rai presennol, sy'n gysylltiedig â'r sectorau sy'n codi, gan gynnwys y rhai sy'n cynyddu gallu cymunedau i gefnogi a manteisio ar dwf clwstwr | Cymorth grant i ddatgloi safleoedd cyflogaeth allweddol, gan ganolbwyntio ar Safleoedd Treth Parthau Buddsoddi | | 10,000 |
| | Cyllid cyfalaf gwell ar gyfer isadeiledd bysiau er mwyn cyflymu teithiau, er enghraifft, gwelliannau signalau traffig neu lonydd bws. Mae hyn yn rhoi mynediad trafnidiaeth cyhoeddus gwell a mwy dibynadwy i deithwyr at safleoedd cyflogaeth | Buddsoddiad cyfalaf i gefnogi'r rhaglen trawsffurfio bysiau | | 4,500 |
| | Gwella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng dulliau | e.e. seidins Padeswood | | 2,000 |
| | Cyllid ar gyfer teithio llesol newydd neu welliannau iddynt | e.e. Ymyraethau teithio llesol Porth Wrecsam | | 5,000 |
| | Ymyraethau cyfalaf penodol i alluogi gwell cydweithrediad o safleoedd datblygu posib gyda chyfleustodau a mynediad at y grid | Uwchraddio i gefnogi costau cyfleustodau o gyflawni safleoedd treth (gallant gynnwys prosiectau buddsoddi 'strategol' wedi'i alinio â buddsoddiadau mawr) | | 20,000 |
| | Cyllid ar gyfer datblygu a chefnogi isadeiledd arloesi priodol ar y lefel lleol | e.e. WU - offer yn EOC | | 500 |
| | Cyllid ar gyfer datblygu a chefnogi isadeiledd arloesi priodol ar y lefel lleol | Canolfan Parodrwydd Gweithgynhyrchu (arfaethedig) | | 17,600 |
| | | Canolfan Trawsnewid y Diwydiant (arfaethedig) | | 5,000 |
| Ymchwil ac Arloesi | Cyllid grant i gefnogi gweithgareddau Ymchwil a Datblygu, yn amodol ar ystyriaethau gweithredu | Ymchwil a datblygu wrth ganolbwyntio ar ddata | 1,191 | |
| | Cyllid grant i brynu offer cyfalaf er mwyn cefnogi busnesau i wella eu gweithgarwch Y&D | Grantiau Ymchwil a Datblygu i Fusnes | | 9,500 |
| | Wrecsam | £75,000 yr acer | | 5,625 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dyraniad Buddion i Ddeiliaid | Sir y Fflint | £75,000 yr acer | | 4,575 |
| Cyfanswm | | | 64,000 | 96,000 |
| | | | 160,000 | |

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

21 Chwefror, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Trosglwyddo’r Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro Iwan Evans, Swyddog Monitro |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diweddaru aelodau'r CBC ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i drosglwyddo'r Cynllun Twf, ei gyllid, a'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) i'r CBC.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y CBC yn derbyn y diweddariad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i baratoi ar gyfer trosglwyddiad arfaethedig y Cynllun Twf, ei gyllid a'r PMO i'r CBC ar 1 Ebrill, 2025.

2.2. Y bydd adroddiad penderfynu pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y CBC ar 21 Mawrth, 2025 i ddarparu ei benderfyniad ffurfiol i dderbyn y trosglwyddiad ac ymrwymo i'r cytundeb Cyflawni ac Ariannu ar gyfer trosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Y penderfyniad yw trosglwyddo gweithrediad y Cynllun Twf o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC. Bydd rôl y corff Atebol, sydd â chyfrifoldeb am gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a threfniadau ariannu ar gyfer y Cynllun Twf yn cael eu trosglwyddo i'r CBC. Mae'r adroddiad hwn yn cynghori ynghylch cynnydd ar y rhaglen ar gyfer cyflawni'r trosglwyddiad hwn.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022, fe wnaeth Cabinet a Phwyllgorau Gweithredol pob un o'r chwe Awdurdod Lleol gytuno, mewn egwyddor, y dylid trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) i'r CBC. Eglurwyd bod sicrhau penderfyniad mewn egwyddor yn caniatáu i'r gwaith tuag at drosglwyddo ddechrau. Esboniwyd bod y fframwaith statudol yn ei le, a bod sefydlu'r CBC fel endid gweithredol yn golygu bod strwythur llywodraethu digonol i gefnogi'r trosglwyddiad arfaethedig.

4.2. Fel yr amlinellwyd yng nghyfarfodydd y CBC ar 6 Medi a 22 Tachwedd 2024, er mwyn gweithredu'r trosglwyddiad, roedd camau cyfreithiol penodol yn angenrheidiol:

i. Cytundeb gyda'r Llywodraethau ar drosglwyddo (*novation*) y Cynllun Twf i'r CBC a'r model ar gyfer cyflawni hyn. Mae'r egwyddor i drosglwyddo wedi derbyn cefnogaeth y llywodraeth.

ii. Penderfyniadau ffurfiol gan y partïon i GA2 a'r CBC i gytuno i drosglwyddo swyddogaethau'r Cynllun Twf a swyddogaeth y Corff Atebol i'r CBC.

iii. Creu Cytundeb Cydweithio rhwng partïon GA2 a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y cytundeb yn olynydd i GA2 ac mewn sawl ffordd bydd yn adlewyrchu'r trefniadau presennol.

## 5. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD I DROSGLWYDDO'R CYNLLUN TWF I'R CBC

5.1. Mae Bwrdd Gweithredu mewnol wedi'i greu i reoli'r prosiect o drosglwyddo'r Cynllun Twf a'r materion cyfansoddiadol, llywodraethu a sefydlu cysylltiedig y mae'n ofynnol iddynt fod ar waith i gefnogi'r trosglwyddo. Ar hyn o bryd, y materion a ganlyn yw'r camau allweddol sy'n weddill i weithredu'r trosglwyddiad:

- Ym mis Rhagfyr 2024, anfonwyd llythyr at y llywodraeth i ofyn am gytundeb mewn egwyddor i drosglwyddo. Cafwyd ymateb cadarnhaol.
- Ym mis Ionawr 2025, anfonwyd papurau trosglwyddo partneriaid i'w cymeradwyo drwy'r holl brosesau llywodraethu ffurfiol. Mae llythyr gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi'i anfon at bob Arweinydd a'r hyn sy'n cyfateb yn y Prifysgolion a'r Colegau yn cefnogi ac yn pwysleisio pwysigrwydd y dyddiad trosglwyddo.
- Mae cytundeb amnewid drafft wedi'i rannu gyda Llywodraeth Cymru (3 Chwefror) ac rydym yn aros am sylwadau. Yna gall y cytundeb fynd ymlaen i gael ei gwblhau ochr yn ochr â'r broses drosglwyddo.

5.2. Mae'r llwybr i drosglwyddo hefyd yn cynnwys trosglwyddiad TUPE llwyddiannus a diogel tîm y PMO (gan gynnwys y Cyfarwyddwr Portffolio) i sicrhau nad effeithir ar gynlluniau'r Cynllun Twf sydd yn cynnwys rhyngddibyniaethau parodrwydd busnes fel systemau cyllid, buddion AD, cyflogres a phensiynau. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf wrth drosglwyddo. Bu ffocws diweddar ar y gofyn i ddod â chymorth ychwanegol i mewn i fod yn sail i gyflawni'r Cynllun Twf. Mae hyn wedi rhoi hyder na fydd y broses drosglwyddo yn cael ei heffeithio'n andwyol. Mae'r rhaglen waith estynedig yn mynd rhagddi ac yn rhoi hyder ar gyfer y broses drosglwyddo.

5.3. Mae'r dyddiad trosglwyddo gweithredol wedi'i osod ar 1 Ebrill, ond mae'r dibyniaethau fel yr amlinellir ym mharagraffau 5.1 a 5.2 yn symud ymlaen yn unol â hynny.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Mae prosiect gweithredu'r CBC yn cael ei gefnogi drwy ddarparu cymorth arbenigol a ddarperir trwy Gyngor Gwynedd a chan nifer o adnoddau contract sydd wedi'u targedu at gefnogi gwasanaethau rheoli rhaglenni, cyllid, cyfreithiol a democrataidd. Bydd angen rhywfaint o'r capasiti dan gontract hyd nes y trosglwyddir y Cynllun Twf a gweithredu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Gwynedd. Bydd rhai rolau eraill yn gofyn am recriwtio parhaol i swyddi penodol.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae'r trosglwyddiad i gorfforaeth sy'n bodoli eisoes ar ffurf y CBC. Bydd hyn yn golygu rhai newidiadau allweddol a chyffredinol gyda threfniadau'r Cyd-bwyllgor ddim yn ofynnol mwyach. Nid yw'r cytundeb bellach yn seiliedig ar ddirprwyaeth, ond ar amnewid/aseiniad cyflawni'r Cynllun Twf i'r CBC.

7.2. Bydd cytundeb Amnewid cydamserol ac ar wahân i drosglwyddo cyllid yn cael ei gwblhau gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a'r CBC. Fel rhan o'r broses drosglwyddo, gan nad oes angen awdurdod lletya, mae Cyngor Gwynedd yn gadael rôl y corff atebol i gael ei ddisodli gan y CBC.

7.3. Mae ymrwymiadau'r naill barti a'r llall yn seiliedig ar y Cytundeb Cyflawni ac Ariannu (sy'n disodli GA2) ac nid ar ddirprwyo a materion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, yn gyfnewid am yr arian bydd y partïon yn cadw rôl gyffredinol ar ffurf y Cynllun Twf.

7.4. Bydd y CBC yn gyfrifol am ei staff ei hun a strwythurau eraill. Ei ymrwymiad fydd cyflawni'r Cynllun Twf a bydd angen iddo ddefnyddio'r adnoddau a roddir iddo i'w gyflawni. Mae cyllid y Cynllun Twf wedi'i ddiogelu o swyddogaethau eraill y CBC a'r ardoll. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd ymrwymiad y CBC i gyflawni yn adlewyrchu'r adnodd a roddir iddo neu y gall gael mynediad ato. Er bod y model ariannu yn cael ei gadw, mae'r CBC yn endid ar wahân ac mae'n rhaid iddo osod ei gyllideb gytbwys ei hun yn ôl y gyfraith.

7.5. Fel corff ardoll annibynnol mae'n ofynnol i'r CBC osod cyllideb gytbwys gan ystyried ei holl swyddogaethau. Mae'n cymryd yr atebolrwydd i'r llywodraethau am gyflawni'r Cynllun Twf ac ymateb i'w gofynion. Byddai unrhyw gynnydd yng nghostau refeniw cyflawni na ellid eu hariannu o ffynonellau eraill naill ai'n cael eu hariannu gan gyfraniadau diwygiedig y cytunir arnynt gan y partneriaid neu fel sefyllfa ddiofyn byddai'n rhaid i'r CBC adolygu ei gyllideb a'r ardoll.

---

ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Cyd-awdur yr adroddiad.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid yn parhau i ddarparu cymorth i hwyluso datblygiad pellach y CBC. Mae cyllidebau a gwariant y CBC a'r Cynllun Twf yn destun adolygiad rheolaidd, ac rwy'n hyderus bod y trefniadau ariannol yn gadarn."